Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

School of Medicine
Ysgol Meddygaeth



# SCIENCE in health

# LIVE Online! 2022

**Inspiring the next generation of scientists and healthcare professionals**

www.cardiff.ac.uk/scienceinhealth



# Science in Health Live Online 2022!

## 16th & 17th March 2022

### Cardiff University Raising Aspirations in Science and Medicine

Science in Health Live! has been welcoming pupils to Cardiff School of Medicine for over 25 years. The event has always taken place at Wales' largest teaching hospital within National Science & Engineering Week. It is aimed at students in Year 12 studying science and maths A-levels and gives attendees the opportunity to discover more about the latest internationally recognised science discoveries taking place within healthcare.

This year we have once again been testing the creativity of our researchers and lecturers to develop an online event, to give you a flavour of where your passion for science can take you. We have compiled a comprehensive programme, comprising 4 hours of interactive online sessions, and a whole host of online resources, quizzes and videos for you to enjoy in your own time.

Do you want to learn about the different ways you can do science and where this can take you? Have the opportunity to ask questions of researchers working in different areas of health research? Gain some narrative to support you to complete your UCAS applications?

If the answer is YES, join the Science in Health Live Online event and -

- Meet a range of our researchers and lecturers.
- Take part in our 'Guess the Healthcare Professional' session to gain an understanding of some of the wide range of careers available.
- Question our panel of researchers from the new Wolfson Centre for Young People's Mental Health.
- See inside some of our labs and hear about the ongoing research.
- Ask questions of an Expert Panel (to include medical undergraduates, PhD Students, Early Career Researchers, Admissions staff).
- Participate in an online science quiz with voucher prizes for 1st, 2nd and 3rd place.

## Book online:

To attend this online event and receive complementary resources, complete the booking form at the following link:

https://www.eventbrite.co.uk/e/science-in-health-live-online-2022-tickets-260918412997

Live online sessions will take place from 10.00 am – 12.00 noon on Wednesday 16th and Thursday 17th March. Please indicate which sessions you wish to attend on the booking form.

## After attending the Science in Health Live online event in 2021 pupils said they would:

*"Reflect on what I've learnt."*

*"Carry out more research into health careers!"*

*"Reflect on the topics discussed and how it has made me more confident in picking medicine as my future career and to list Cardiff University as my first choice when applying."*

*"Make Personal statement reflections based on the event."*

*"Study hard and I'll be able to reach my goals and dream career."*



www.cardiff.ac.uk/scienceinhealth

@CUmedicengage medicengagement@cardiff.ac.uk

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

School of Medicine
Ysgol Meddygaeth



# GWYDDONIAETH mewniechyd

## YN FYW Ar-lein! 2022

**Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol**

**www.caerdydd.ac.uk/gwyddoniaethmewniechyd**

# Gwyddoniaeth Mewn Iechyd – Yn Fyw Ar-lein 2022!

## 16/17 Mawrth 2022

### Prifysgol Caerdydd yn Codi Dyheadau mewn Gwyddoniaeth a Meddygaeth

Mae 'Gwyddoniaeth Mewn Iechyd – yn Fyw!' wedi bod yn croesawu disgyblion i Ysgol Meddygaeth Caerdydd ers dros 25 mlynedd. Cynhelir y digwyddiad yn ysbyty addysgu mwyaf Cymru yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg. Caiff ei anelu at fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12 sy'n astudio gwyddoniaeth a mathemateg Safon Uwch ac mae'n rhoi cyfle iddynt ddysgu rhagor am y darganfyddiadau gwyddonol diweddaraf a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n digwydd ym maes gofal iechyd.

Eleni rydym unwaith eto wedi bod yn profi'r creadigrwydd, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig iawn darparu'r cyfleoedd hyn i chi. Mae ein hymchwilwyr a'n darlithwyr wedi bod yn greadigol yn datblygu digwyddiad ar-lein, er mwyn rhoi cipolwg i chi o ble y gall eich angerdd ynghylch gwyddoniaeth eich arwain. Rydym wedi llunio rhaglen gynhwysfawr, yn cynnwys 4 awr o sesiynau rhyngweithiol ar-lein, a llu o adnoddau, cwisiau a fideos i chi eu mwynhau yn eich amser eich hun.

Ydych chi eisiau dysgu am y gwahanol ffyrdd y gall gwyddoniaeth weithio a lle gall hyn fynd â chi? Beth am gael y cyfle i holi ymchwilwyr sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd ymchwil iechyd? Eisiau ychydig o naratif i'ch cefnogi i lenwi'ch ceisiadau UCAS?

Os YDW yw'r ateb, ymunwch â'r digwyddiad Gwyddoniaeth Mewn Iechyd yn Fyw ar-lein -

- Cwrdd ag ystod o'n hymchwilwyr a'n darlithwyr.
- Cymryd rhan yn ein sesiwn 'Dyfalu'r Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol' i ddod i ddeall rhai o'r ystod eang o yrfaoedd sydd ar gael.
- Cwestiynu ein panel o ymchwilwyr o Ganolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc newydd.
- Gweld y tu mewn i rai o'n labordai a chlywed am yr ymchwil barhaus.
- Holi panel o arbenigwyr (gan gynnwys israddedigion meddygol, myfyrwyr PhD, Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa, staff Derbyn Myfyrwyr)
- Cymryd rhan mewn cwis gwyddoniaeth ar-lein gyda gwobrau taleb i'r rheiny a ddaw'n gyntaf, yn ail ac yn drydydd.

## Cofrestrwch:

Cadwch le ar-lein: Llenwch y ffurflen trwy'r ddolen ganlynol i gadw lle i fynd i'r digwyddiad ar-lein hwn a derbyn adnoddau rhad ac am ddim:

https://www.eventbrite.co.uk/e/science-in-health-live-online-2022-tickets-260918412997

Bydd sesiynau byw ar-lein yn cael eu cynnal rhwng 10:00am - 12:00pm hanner dydd ar ddydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth. Nodwch pa sesiynau yr ydych am fynd iddynt ar y ffurflen cadw lle.

## Ar ôl cymryd rhan yn nigwyddiad ar-lein Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw yn 2021 dywedodd y disgyblion y bydden nhw'n:

*"Myfyrio ar yr hyn a ddysgais i."*

*"Gwneud mwy o ymchwil i yrfaoedd ym maes iechyd!"*

*"Myfyrio ar y pynciau a drafodwyd a sut mae wedi fy ngwneud yn fwy hyderus wrth ddewis meddygaeth fel fy ngyrfa yn y dyfodol ac i restru Prifysgol Caerdydd fel fy newis cyntaf wrth wneud cais."*

*"Llunio myfyrdodau datganiad personol yn seiliedig ar y digwyddiad."*

*"Astudio'n galed er mwyn gallu cyrraedd fy nodau a dechrau ar fy ngyrfa ddelfrydol."*

www.cardiff.ac.uk/gwyddoniaethmewniechyd

@CUmedicengage medicengagement@caerdydd.ac.uk